# Cyfnewid fideo brys

## Cynnig i gymeradwyo gwasanaeth Sign Language Interactions

**Ymgynghoriad:**

Dyddiad cyhoeddi: 17 Tachwedd 2021

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 17 Rhagfyr 2021

# Contents

## Section

1. Trosolwg 1

2. Cyflwyniad a chefndir 2

# 1. Trosolwg

Mae gwasanaethau fideo brys yn ffordd o alluogi pobl sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydeinig (BSL) i gyfathrebu'n effeithiol â phobl nad ydynt yn defnyddio BSL. Mae'r defnyddiwr BSL byddar yn gwneud galwad fideo gan ddefnyddio dyfais gysylltiedig i ffonio person â chlyw mewn canolfan alwadau. Mae'r dehonglydd yn cyfieithu'r hyn y mae'r defnyddiwr byddar yn ei ddweud i Saesneg llafar i'r person â chlyw ei glywed, ac yn arwyddo'r hyn y mae'r person â chlyw yn ei ddweud i'r defnyddiwr byddar.

Ym mis Mehefin 2021, gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr cyfathrebiadau[1] ddarparu, neu gontractio i ddarparu, gwasanaeth cyfnewid fideo brys 24/7 am ddim a gymeradwyir gan Ofcom.[2] Bu i ni hefyd nodi'r meini prawf y byddai angen eu bodloni er mwyn i wasanaeth cyfnewid fideo brys gael ei gymeradwyo.

Bu i ni wahodd ceisiadau ffurfiol am gymeradwyo gwasanaeth erbyn 1 Hydref 2021. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu ein hasesiad o wasanaeth arfaethedig Sign Language Interactions yn erbyn ein meini prawf cymeradwyo.

### Beth rydym yn ei gynnig

A ninnau wedi asesu'r cais a dderbyniwyd gan Sign Language Interactions yn erbyn ein meini prawf cymeradwyo, rydym yn ymgynghori ar gymeradwyo ei wasanaeth arfaethedig at ddibenion Amod Cyffredinol C5, sef y rheol newydd ar gyfer darparwyr cyfathrebiadau.

Rydym yn gwahodd sylwadau ar ein cynnig fel y'i nodir yn yr ymgynghoriad hwn erbyn 17 Rhagfyr 2021. Rydym yn croesawu cyflwyniadau yn BSL.

Byddwn yn ystyried unrhyw ymatebion a dderbyniwn erbyn y dyddiad cau cyn penderfynu'n derfynol a ddylid cymeradwyo gwasanaeth cyfnewid fideo brys Sign Language Interactions.

Ein nod yw cyhoeddi datganiad sy'n nodi ein penderfyniad ym mis Ionawr 2022. Bydd y rhwymedigaeth a osodir ar ddarparwyr cyfathrebiadau i ddarparu gwasanaeth cyfnewid fideo brys yn dod i rym ar 17 Mehefin 2022.

[1] At ddibenion yr Amod Cyffredinol perthnasol, rydym yn golygu darparwyr gwasanaethau teleffoni sefydlog a symudol h.y. gwasanaethau cyfathrebu rhyngbersonol seiliedig ar rifau (pan fo'n dechnegol ymarferol), a darparwyr gwasanaethau mynediad i'r rhyngrwyd.

[2] Gweithredir y rhwymedigaeth hon drwy Amodau Hawliau Cyffredinol Ofcom, yn benodol Amod Cyffredinol C5.

# 2. Cyflwyniad a chefndir

## Cefndir

2.1 Mae'n ddyletswydd ar Ofcom o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 i hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr mewn perthynas â materion cyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw i anghenion dinasyddion anabl. Mae angen i Ofcom hefyd gadw at yr egwyddor a geir yn y fframwaith rheoleiddio y dylai fod gan bobl ag anableddau fynediad at gyfathrebiadau brys sydd cystal â'r hyn a brofir gan ddefnyddwyr eraill.

2.2 Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd Ofcom ddatganiad ("datganiad mis Mehefin")[3] yn amlinellu ein penderfyniad i fynnu i ddarparwyr gwasanaethau ffôn sefydlog a symudol[4] a darparwyr gwasanaethau mynediad i'r rhyngrwyd, ddarparu, neu gontractio i ddarparu, gwasanaeth cyfnewid fideo 24/7 am ddim ar gyfer defnyddwyr BSL byddar er mwyn galluogi cyfathrebu â'r gwasanaethau brys. Byddai angen i'r gwasanaeth cyfnewid fideo brys hwn gael ei gymeradwyo gan Ofcom. Gweithredir y gofyniad hwn drwy Amodau Cyffredinol newydd (yr "AC newydd") a wnaed ar 22 Mehefin 2021 ac a ddaw i rym ar 17 Mehefin 2022.

2.3 Bydd y gwasanaeth cyfnewid fideo brys yn galluogi defnyddwyr BSL byddar i gyfathrebu â defnyddwyr nad ydynt yn ddefnyddwyr BSL yn glir ac yn effeithiol, a bydd yn galluogi defnyddwyr BSL i ddeall cyfarwyddiadau gan y gwasanaethau brys yn fwy hwylus. Bydd yn golygu defnyddiwr BSL byddar yn arwyddo dros gysylltiad fideo â dehonglydd mewn lleoliad fel canolfan alwadau gan ddefnyddio dyfais gysylltiedig fel ffôn clyfar, llechen neu gyfrifiadur personol. Mae'r dehonglydd yn trosi'r hyn a arwyddir i'r person â chlyw (y gwasanaethau brys yn yr achos hwn) ac yn arwyddo'r ymatebion gan y gwasanaethau brys yn ôl i'r defnyddiwr BSL byddar.

2.4 Nododd Datganiad Mis Mehefin yr AC newydd a bennwyd o ran cyfnewid fideo brys[5] a hefyd y meini prawf cymeradwyo y byddai'n rhaid eu bodloni er mwyn i wasanaeth gael ei gymeradwyo gan Ofcom fel gwasanaeth cyfnewid fideo brys ("y Meini Prawf Cymeradwyo").[6] Mae'r AC newydd a'r Meini Prawf Cymeradwyo o'r Datganiad Mis Mehefin wedi'u nodi isod.

2.5 Mae datganiad mis Mehefin hefyd yn nodi'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer rhoi'r gwasanaeth cyfnewid fideo brys ar waith, ac mae wedi'i ailadrodd isod.

**Tabl 1: Amserlen rhoi ar waith**

| Amseru disgwyliedig | Gweithred |
|---|---|
| **22 Mehefin 2021** | Cyhoeddi meini prawf cymeradwyo terfynol |

[3] Datganiad: Gwasanaethau cyfnewid fideo brys, Ofcom, Mehefin 2021.
[4] Gwasanaethau cyfathrebu rhyngbersonol seiliedig ar rifau pan fo hyn yn dechnegol ymarferol.
[5] Atodiad 2, Datganiad: Gwasanaethau cyfnewid fideo brys, Ofcom, Mehefin 2021.
[6] Atodiad 1, Datganiad: Gwasanaethau cyfnewid fideo brys, Ofcom, Mehefin 2021.

| | |
|---|---|
| **1 Medi 2021** | Dyddiad cau ar gyfer datganiadau o ddiddordeb |
| **1 Hydref 2021** | Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ffurfiol |
| **Tachwedd 2021** | Ymgynghori ar unrhyw gynnig i gymeradwyo gwasanaethau |
| **Ionawr 2022** | Cyhoeddi penderfyniad gan Ofcom i gymeradwyo un neu fwy o wasanaethau |
| **Ionawr-Mehefin 2022** | Darparwyr wedi'u rheoleiddio'n contractio gyda chyflenwr gwasanaeth cymeradwy, naill ai drwy gyfanwerthwr neu'n uniongyrchol |